**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**
Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mercher, 21 Chwefror 2024 am 1.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd B Harris | |

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oed yn bresennol**

Y Cynghorydd R Evans

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr. M. Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw

**106 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**107 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024 yn rhai cywir.

**108 Adborth Rhag-graffu**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a

Chyfathrebu adborth a sylwadau i'r Cabinet mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgorau Craffu yn dilyn rhag-graffu ar yr eitemau a restrir yn adran 5 o'r adroddiad.

**109 Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2024–2025**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen, sy'n rhoi'r cyfle i'r Cabinet drafod y strategaeth gyllideb ddrafft y bydden nhw'n dymuno ei chyflwyno i'r Cyngor, a'i diwygio yn ôl yr angen.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr am yr adroddiad.

Er bod yr Arweinydd yn croesawu'r £25 miliwn ychwanegol ar gyfer Llywodraethau Lleol yng Nghymru, eglurodd fod angen £1.5 biliwn ychwanegol ar gynghorau yn Lloegr er mwyn mynd i'r afael â phwysau, ond dim ond £600 miliwn a gyhoeddwyd. Dim ond £500 miliwn o'r £600 miliwn yma sy'n arian newydd. O ganlyniad i hyn, dim ond £25 miliwn a roddwyd i Gymru.

Cyfaddefodd yr Arweinydd mai hwn oedd y bwlch mwyaf heriol yn y gyllideb iddo ei wynebu yn ystod ei gyfnod wrth y llyw, a hynny oherwydd pwysau cyflog, pwysau gwasanaeth a chwyddiant a'r ffaith nad oes cynnydd yn y cyllid Grant Cynnal Refeniw. Roedd yr Arweinydd o'r farn bod y Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn mynd i'r afael â hyn yn y ffordd orau bosibl yn ystod cyfnod mor heriol, a nododd ei bod hi'n sefyllfa ffafriol o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, lle mae cynnydd 7/8%, neu fwy na 10%, yn Nhreth y Cyngor.

Nododd yr Arweinydd mai 4.9% oedd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor RhCT, ond cynigodd ei fod yn cael ei ddiwygio i 4.99%, gan egluro y byddai'r 0.9% ychwanegol yn helpu gyda phwysau o ran trafnidiaeth gyhoeddus.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnydd yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer ysgolion, sef 6.4% a chynigiodd fod £500,000 pellach o arian untro ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Ysgolion, a fyddai'n helpu gyda'r costau mae ysgolion yn eu hwynebu.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn cefnogi gwelliannau'r Arweinydd i'r argymhellion yn yr adroddiad. Canmolodd y Dirprwy Arweinydd drefnau ariannol cadarn y Cyngor, a oedd wedi ein galluogi ni i gynnig un o'r lefelau isaf o gynnydd yn Nhreth y Cyngor ledled Cymru. Gan gyfeirio at yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd y Dirprwy Arweinydd o'r farn bod sefyllfa ariannol enbyd yr awdurdodau lleol yn cael ei chydnabod ymhlith y cymunedau.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw gylch gorchwyl dros faterion ariannol y Cynghorau Cymuned, ond dywedodd fod nifer o'r Cynghorau Cymuned wedi cysylltu â'r Cyngor i edrych ar drefniadau cydweithio, a allai fod yn fuddiol yn y dyfodol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r Uwch Swyddogion Cyllid am gyflwyno cyllideb arfaethedig gadarnhaol; a chroesawodd y taliad untro ychwanegol ar gyfer ysgolion.

Ategodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg y sylwadau blaenorol ac roedd o blaid argymhelliad ychwanegol yr Arweinydd mewn perthynas â rhoi cymorth i ysgolion. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod holl Aelodau'r Cabinet bob amser yn ceisio diogelu ysgolion yn ariannol, lle bo modd gwneud hynny. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn y byddai hyn yn rhoi cymorth pellach i ysgolion, ynghyd ag ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i ariannu'r cynnydd mewn costau cyflog, sydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Wrth gloi, manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar y cyfle i ddiolch i'r Arweinwyr Ysgolion a chydnabod y ffaith bod ysgolion yn wynebu cyfnod heriol iawn ar hyn o bryd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Argymell Strategaeth y Gyllideb i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2024;
2. Diwygio'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2024/25 i 4.99% i gefnogi darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, a phenderfynu bod y lefel yma'n rhan o Strategaeth Gyllideb y Cabinet, i'w chyflwyno i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2024;
3. Dyrannu £500,000 o gyllid untro ychwanegol i Ysgolion a phenderfynu bod hyn yn rhan o Strategaeth Gyllideb y Cabinet, i'w chyflwyno i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2024;
4. Awdurdodi'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen i ddiwygio'r gyllideb derfynol o ganlyniad i dderbyn y Setliad Terfynol sydd wedi'i amlinellu yn Adran 4 yr adroddiad.

## 110 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2024/25 - 2026/27

Derbyn adroddiad Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen, sy'n cyflwyno rhaglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2024/25 hyd at 2026/27, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo yn dilyn cymeradwyaeth Aelodau'r Cabinet.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr am yr adroddiad.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y £19.292 miliwn ychwanegol o gyllid sylweddol a restrwyd yn Adran 6.2 yr adroddiad, ac eglurodd fod y blaenoriaethau buddsoddi yn gysylltiedig â naill ai Cynllun Corfforaethol y Cyngor neu ymrwymiadau maniffesto'r Cabinet. Eglurodd yr Arweinydd fod y ffigur yma ar ben y rhaglen gyfalaf ehangach, sy'n cynnwys miliynau o bunnoedd o fuddsoddiadau ar gyfer adfywio, grantiau tai ac ysgolion ac ati. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai'r bidiau arfaethedig sydd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cael eu hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo hyn.

Tynnodd yr Arweinydd sylw'r Aelodau at y buddsoddiad yn Fferm Solar Coed-elái, a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor gynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun a lleihau costau ynni yn y dyfodol. Soniodd hefyd am Gae Hoci'r Ddraenen Wen, sy'n ymrwymiad sydd wedi'i nodi eisoes.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ddatblygiad Porth y De ym Mhontypridd, a dywedodd y byddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yng nghanol y dref drwy alluogi ymwelwyr o gyfeiriad y Gogledd a'r De i gefnogi busnesau.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd, yn rhinwedd ei swydd yn Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, ar y cyfle i ddiolch i'r Arweinydd am y gefnogaeth a roddwyd i deuluoedd cyn-filwyr. Soniodd y Dirprwy Arweinydd am gynnwys £100,000 tuag at ddigideiddio cofebion rhyfel, sef y prosiect cenedlaethol cyntaf o'i fath. Byddai ysgolion, grwpiau a chymunedau lleol yn cyfrannu at y gwaith yma. Aeth y Dirprwy Arweinydd ati i gydnabod mai hi oedd un o'r unig Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog gyda chyllideb weithredol, gan nodi bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymuned y lluoedd arfog.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cynnig y rhaglen gyfalaf tair blynedd sy'n cael ei chynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2024. Mae'r rhaglen yma'n cynnwys:
   - Dyraniad adnoddau arfaethedig fel y manylir ym mharagraff 5 o'r adroddiad sydd ynghlwm;
   - Blaenoriaethau buddsoddi arfaethedig fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 6.2 yr adroddiad sydd ynghlwm;
   - Rhaglen gyfalaf graidd y Cyngor;
   - Cyfanswm rhaglen gyfalaf y Cyngor, gan gynnwys cyllid ychwanegol sydd ddim yn gyllid craidd.

2. Awdurdodi'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen i ddiwygio lefel Adnoddau'r Cyngor sydd eu hangen i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd Graidd, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2, o ganlyniad i unrhyw newid i lefelau adnoddau cyfalaf y Cyngor a gaiff ei gyhoeddi yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol.

**111 Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Annomestig 2024/25**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Refeniw a Budd-daliadau fanylion Cynllun Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25; manylion cynllun y Cyngor ar gyfer Lleihau Ardrethi Busnes Lleol; a manylion y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig sydd ar gael i'r sawl cymwys sy'n talu Ardrethi Busnes o 1 Ebrill 2024.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol yr argymhellion yn yr adroddiad, gan gydnabod yr addewid i fusnesau o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai mabwysiadu Cynllun Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru a'r cynllun dewisol lleol yn darparu cymorth ariannol y mae mawr ei angen i fusnesau ledled RhCT.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi y byddai'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes lleol yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i'r busnesau llai yng nghanol trefi, ac eglurodd fod RhCT ymhlith nifer fach o Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd wedi rhoi cynllun o'r fath ar waith.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi manylion Cynllun Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru a mabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn 2024/25;
2. Nodi parhad y Cynllun Lleihau Ardrethi Busnes lleol arfaethedig ar gyfer 2024/25; a
3. Nodi'r rhyddhad Ardrethi Annomestig newydd sydd ar gael i dalwyr ardrethi busnes cymwys o 1 Ebrill 2024.

**112 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000 a Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 a Defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o Bwerau Ymchwilio yn ystod 2023**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd adroddiad sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2023; a defnydd y Cyngor o Gaffael Data Cyfathrebu o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 ar gyfer yr un cyfnod.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn berthnasol o ran ystod eang o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys y drefn drwyddedu. Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd ei bod hi'n bwysig defnyddio'r pwerau yma mewn modd priodol ac roedd hi o'r farn bod y diweddariad yn cadarnhau bod y Cyngor wedi gwneud hynny.

O ran y cynnydd mewn monitro cyfryngau cymdeithasol, teimlai'r Dirprwy Arweinydd fod hyn yn arwydd o sut mae unigolion yn byw eu bywydau.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Cydnabod bod pwerau ymchwilio mewn perthynas â gwyliadwriaeth gudd a chaffael data cyfathrebu wedi'u defnyddio mewn modd priodol sy'n gyson â pholisïau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a Deddf Pwerau Ymchwilio y Cyngor yn ystod y cyfnod o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2023.

**113 Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a oedd yn ceisio Cymeradwyaeth y Cabinet o ran y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd y ddogfen ac roedd yn hapus i gytuno â'r argymhellion yn yr adroddiad.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Prif Weithredwr am y ddogfen bolisi hollgynhwysol a manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, a fu'n rhag-graffu ar y trefniadau yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet bwysigrwydd diogelu plant ac oedolion rhag

niwed ac esgeulustod a chroesawodd yr argymhellion oedd gerbron yr Aelodau.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Nodi'r adborth a ddarparwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024; a
3. Cymeradwyo'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd, a gyflwynir yn Atodiad I i'r adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.31 pm**

**Y Cynghorydd A Morgan**
**Cadeirydd.**